SFL45

Nodi mannau casglu a dosbarthu addas ar gyfer nwyddau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â nodi mannau casglu a dosbarthu addas ar gyfer nwyddau. Mae'n cynnwys casglu gwybodaeth am y cyfleusterau sydd eu hangen neu ar gael ar gyfer llwytho neu ddadlwytho, a mynediad i fannau dosbarthu. Mae hefyd yn cynnwys ystyried materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.

Mae'r safon hon yn berthnasol i bob gweithredwr ar bob lefel mewn gweithrediadau logisteg. Gallai'r gweithredwyr, er enghraifft, fod yn gweithio ym maes warws a dosbarthu, trafnidiaeth, neu anfon llwythi ymlaen.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi a chadarnhau gofynion a chyfyngiadau'r nwyddau i gael eu symud
2. sefydlu man cyswllt lle gellir cael manylion mannau casglu neu ddosbarthu
3. cael gwybodaeth gan **gydweithwyr/cwsmeriaid** parthed mynediad ffisegol a gofynion diogeledd y mannau casglu neu ddosbarthu
4. cael gwybodaeth gan **gydweithwyr/cwsmeriaid** ynghylch iechyd, diogelwch ac unrhyw faterion amgylcheddol yn ymwneud â'r mannau casglu neu ddosbarthu
5. pennu cyfyngiadau neu derfynau, gan ddefnyddio **deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer** perthnasol a allai effeithio ar fannau casglu neu ddosbarthu ar gyfer nwyddau
6. cael gwybodaeth gan **gydweithwyr/cwsmeriaid** ar gyfleusterau llwytho neu ddadlwytho mewn mannau casglu neu ddosbarthu sy'n berthnasol i'r nwyddau a'r cerbyd
7. cyfathrebu unrhyw faterion yn ymwneud â mannau casglu neu ddosbarthu i **gydweithwyr/cwsmeriaid** perthnasol
8. cadarnhau'r nwyddau a phennu addasrwydd man dosbarthu neu gasglu
9. nodi adegau pan fydd angen offer arbenigol ar gyfer llwytho a dadlwytho
10. cytuno gyda **chydweithwyr/cwsmeriaid** y camau sydd eu hangen i ddatrys unrhyw broblemau gyda'r cyfleusterau yn y mannau casglu neu ddosbarthu
11. cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad a'r holl **ofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu** perthnasol
12. cyfathrebu gyda **chydweithwyr** a **chwsmeriaid** mewn perthynas â'r nwyddau sy'n cael eu casglu a'u dosbarthu

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y math a nodweddion y nwyddau i gael eu symud
2. y mathau o gerbydau sydd yn addas ar gyfer cario nwyddau gwahanol
3. y **ddeddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer** perthnasol ar gyfer mynediad diogel i ac o'r mannau casglu a dosbarthu
4. sut i adnabod y ffynonellau gwybodaeth yn ymwneud â materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol
5. gweithdrefnau cofnodi a dogfennu, a ddefnyddir gan y sefydliad, mewn perthynas â chasglu a dosbarthu nwyddau
6. dulliau **cyfathrebu** i'w defnyddio gyda **chydweithwyr** a **chwsmeriaid**
7. y math o gyfleusterau sy'n ofynnol ar gyfer llwytho a dadlwytho a sut i bennu eu haddasrwydd
8. ffynonellau a mannau cyswllt ar gyfer gwybodaeth am y cyfleusterau llwytho a dadlwytho
9. y **ddeddfwriaeth, rheoliadau a'r codau ymarfer** ar gyfer llwytho neu ddadlwytho cerbydau yn ddiogel
10. mathau a ffynonnellau offer arbenigol
11. y **gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu** perthnasol yn ymwneud â mannau casglu a dosbarthu
12. sut i gofnodi gwybodaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

Geirfa

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Cyfathrebu: llafar, ysgrifenedig, electronig

Cwsmeriaid: mewnol ac allanol

Deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer: Deddfau Traffig ar y Ffordd, llwytho y tu allan i oriau, defnydd o offer codi wedi ei bweru

Gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu: rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, rheoliadau amser gwaith, rheoliadau trafnidiaeth

SFL45

Nodi mannau casglu a dosbarthu addas ar gyfer nwyddau

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2018
Indicative Review Date	Chwefror 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logistics
RCU gwreiddiol	SFL45
Galwedigaethau perthnasol	Gweithredu a chynnal a chadw trafnidiaeth; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu; Gyrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Swyddfa Draffig
Geiriau Allweddol	casglu; dosbarthu; llwytho; dadlwytho